



**GRANT DYSGU PROFFESIYNOL/ PROFESSIONAL LEARNING GRANT**

***Ionawr 2019 – Ebrill 2020***

<b>Ysgol/School</b>	<b>Ysgol Morfa Nefyn</b>
<b>Swm a ddyrannwyd/ Allocated Sum</b>	<b>£2413</b>

<p><b>Amlinelliad o'r bwriadau/Outline of intentions</b></p>	<p>Bwriad yr ysgol yw defnyddio y grant dysgu proffesiynol i dalu am athrawon llanw er mwyn gallu rhyddhau athrawon yr ysgol. Bydd yr ysgol yn sicrhau y cyfleoedd isod ar gyfer yr athrawon a'r cymorthyddion:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhyddhau athrawon a chymorthyddion i fynychu hyfforddiant er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am y cwricwlwm newydd.</li> <li>• Rhyddhau athrawon a chymorthyddion i ymchwilio a pharatoi yn dilyn hyfforddiant er mwyn sicrhau fod cynlluniau, trefniadau asesu a dulliau addysgu yn cael eu datblygu yn ol gofynion y cwricwlwm newydd.</li> <li>• Rhyddhau athrawon a chymorthyddion i gydweithredu o fewn yr ysgol ac ar draws clystyrau a rhwydweithiau o ysgolion. Sicrhau fod cyfle i bob aelod o staff gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol cydweithredol a chynllunio ar y cyd.</li> </ul>
--	---

<p><b>Yr Effaith a'r Canlyniadau a Ddisgwylir/ Expected Impact and Outcomes</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bob aelod o staff yr ysgol gyda gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn am y Cwricwlwm i Gymru ac yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm i ddisgyblion.</li> <li>• Athrawon a chymorthyddion yn cael cyfle i wneud dewisiadau am eu datblygiad proffesiynol, yn ogystal ag ymateb i ofynion Cenedlaethol.</li> <li>• Hyder athrawon a chymorthyddion yn datblygu drwy gyd-weithio gyda rhwydweithiau eraill.</li> <li>• Athrawon yn hyderus i gynllunio yn greadigol gan sicrhau fod y pedwar diben yn ganolog i'r cynllunio.</li> <li>• Cynllunio cwricwlaidd yr ysgol yn dangos fod y cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn heriol, ac yn bodloni anghenion pob dysgwr.</li> <li>• Arsylwadau gwersi yn amlygu bod agweddau o'r cwricwlwm yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus yn yr ysgol gan gael dylanwad gadarnhaol ar fewnbwn, brwdfrydedd a safonau disgyblion.</li> </ul>
---	--